


Bwletin y Farchnad HCC

Tachwedd 2018

Mae ystadegau Arolwg Mehefin a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos effaith y tywydd ar y ddiadell Gymreig. Yng Nghymru, roedd 6% yn llai o ŵyn ar 01 Mehefin mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, a chafwyd gostyngiad o 5% yn nifer yr holl ddefaid ac ŵyn. Mae'r ffigyrau'n awgrymu fod gwartheg wedi llwyddo'n well i ymdopi â'r tywydd, oherwydd dim ond gostyngiad bach (0.3%) a gafwyd yn nifer yr holl wartheg a lloi.

Gwartheg

Mae Arolwg Mehefin yn dangos fod nifer yr holl wartheg a lloi yng Nghymru wedi gostwng 0.3% i 1.13 miliwn o anifeiliaid. Fodd bynnag, pan ystyriwn y fuches fagu (buchod laeth a chig eidion sydd wedi magu) yn y cyfanswm hwn fe welwn gynydd o 0.4% i 420,900 o anifeiliaid. Dyma'r ffigyr uchaf a gofnodwyd ar gyfer y fuches fagu oddi ar 2007 (pan oedd y nifer yn 429,200). Y prif reswm am y cynnydd yn y nifer yn y fuches fagu oedd y cynnydd o 1.3% yn nifer y gwartheg godro; cafwyd gostyngiad o 0.7% i 166,600 yn ystod y flwyddyn yn nifer y gwartheg cig eidion. Er gwaethaf gostyngiad bychan yn y fuches fagu gig eidion, mae'r niferoedd wedi bod yn gymharol sefydlog oddi ar 2014, ac mae maint cyfartalog y fuches odro wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.




Yn wahanol i'r buches fagu gig eidion, cafwyd cynnydd o 2.0% yn nifer y buchod cig eidion (dwy flwydd oed a hŷn) heb loi ar ffermydd yng Nghymru, a chafwyd gostyngiad o 1.5% yn nifer y buchod godro mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Gwelwyd cynnydd o 0.8% i 39,000 yn nifer y gwartheg gwryw (dwy flwydd oed a throsodd). Mae'r ffigyrau hyn yn awgrymu y gall y cyflenwad i'r farchnad gynyddu ychydig, ond mae'n aneglur faint o'r gwartheg benyw fydd yn cael eu defnyddio i fagu. O edrych ar wartheg rhwng 13 a 24 mis oed, dim ond ymhlith y gwartheg cig eidion y gwelwyd cynnydd (bron 2% o'r naill flwyddyn i'r llall); cafwyd gostyngiad o 3.6% a 6.2%, yn ôl eu trefn, yn nifer y gwartheg gwryw a benyw yn y fuches odro. Roedd nifer yr holl wartheg yn y categori oedran hwn yn 258,500, sef 2.5% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, ac roedd nifer y gwartheg o dan flwydd oed wedi cynyddu 0.4% i 322,600.

Defaid

Dangosodd canlyniadau amodol Arolwg Mehefin Defra ar gyfer y DU, a ryddhawyd ym mis Hydref, fod nifer yr ŵyn a anwyd yn Lloegr wedi gostwng 1% a bod y gostyngiad yn


yr Alban yn 8%. Roedd disgwyl gostyngiad tebyg yng Nghymru i'r un a gafwyd yn yr Alban. Mae'r arolwg a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau fod nifer y ŵyn - a anwyd yng Nghymru wedi gostwng 6.2% i 4.59 miliwn yn 2018. Mae'n debygol fod cyflwr y mamogiaid wedi dioddef yn dilyn y tywydd gwlyb ddiwedd 2017; gwelwyd yr effaith ar y canrannau sganio ar gyfer ŵyn eleni. Yn dilyn gaeaf gwlyb, cyrhaeddodd y 'Bwystfil o'r Dwyrain' pan oedd y cyfnod wyna yng Nghymru yn ei anterth. Byddai hyn wedi ychwanegu at nifer y colledion.




Wrth ystyried defaid ac ŵyn yng Nghymru, mae'r niferoedd ar gyfer 2018 yn 5% (506,700 o anifeiliaid) yn llai na'r llynedd - cyfanswm o 9.53 miliwn o anifeiliaid. Yn ogystal a'r gostyngiad yn niferoedd yr ŵyn, roedd gostyngiad yn niferoedd y defaid magu hefyd wedi cael effaith ar y cyfanswm. Roedd yna 4.43 miliwn o famogiaid magu ym mis Mehefin 2018, sef 4.7% yn llai na'r llynedd, a rhywbeth yn debyg i'r nifer yn 2015. Mewn cyferbyniad i'r gostyngiad hwn, cafwyd cynnydd o bron 5% i 326,500 yn nifer y mamogiaid difa/lladd, sef y nifer fwyaf oddi ar 2014. Ymddengys fod cynhyrchwyr am werthu anifeiliaid anghynhyrchiol am fod ansicrwydd ynghylch faint o borthiant a fyddai ar gael a phryderon am ei gost.

Moch

Ar 01 Mehefin 2018, roedd 23,199 o foch yng Nghymru, sef gostyngiad o 5.4% a'r nifer leiaf oddi ar 2009. Am fod moch sy'n cael eu pesgi yn cynrychioli dros 85% o'r holl foch, mae gostyngiad o 5.6% yn ei niferoedd yn debygol o fod wedi dylanwadu ar y dirywiad cyffredinol yn y genfaint foch. Roedd cyfanswm nifer y moch magu ar ddaliadau yng Nghymru yn 3,378, sef gostyngiad o 137 (3.9%) mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol.





Gwartheg



Er bod prisiau gwartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yn is na'r flwyddyn flaenorol, ymddengys eu bod yn gwella wrth i'r galw gynyddu yn y cyfnod cyn y Nadolig. Cafodd mwy o wartheg dethol eu lladd yn lladd-dai'r DU ym mis Hydref nag ar unrhyw adeg oddi ar 2015.

Prisiau'r farchnad yng Nghymru a Lloegr; roedd y pris cyfartalog ar gyfer gwartheg dethol yn 192.5c/kg yn yr wythnos ddiweddaraf yn diweddu 01 Rhagfyr, sef 2.1c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol ond 6.5c yn is nag yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn ynghynt. Mae prisiau gwartheg dethol wedi bod yn is na'r flwyddyn flaenorol oddi ar ganol mis Hydref, ond ymddengys eu bod wedi dechrau gwella ers dechrau Tachwedd. Mar cynnydd o'r fath ym mhrisiau'r farchnad yn digwydd yn flynyddol wrth i'r galw gynyddu pan fo'r Nadolig yn nesáu. Ar hyn o bryd mae'r yn 4.4c yn uwch nag yn 2016. Yn yr wythnos yn diweddu 01 Rhagfyr, ym mhrisiau'r heffrod y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn cymhariaeth â'r wythnos flaenorol, sef cynnydd o 5.4c i 205.0c/kg. Roedd pris bustych (188.4c/kg) yn 4.1p yn uwch. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad o 4.3c i 177.1c/kg ym mhrisiau teirw ifainc.


Roedd nifer yr holl wartheg a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU; yn 267,800 ym mis Hydref. Mae hyn yn gynydd sylweddol o 16.2% mewn cymhariaeth â'r mis blaenorol, a'r trwybwn misol mwyaf oddi ar fis Hydref 2015. Gwartheg dethol oedd dros 68% o'r holl wartheg a laddwyd ym mis Hydref. Cynnydd yn nifer yr heffrod a laddwyd oedd yn bennaf gyfrifol am y cynnydd cyffredinol; lladdwyd 11,600, sef 19.1% yn fwy nag yn y mis blaenorol. Cafwyd cynnydd mawr hefyd yn nifer y bustych a laddwyd (+16.1% i 95,000), ond lladdwyd llai o deirw ifainc, sef 16,000 (-4.0%) Mewn cymhariaeth â'r mis cyfatebol y llynedd, lladdwyd 6.1% yn llai o wartheg dethol, ac roedd y cynnydd mwyaf, sef 12.0% yn nifer yr heffrod yn ystod mis Hydref. Hefyd, cafwyd cynnydd yn niferoedd y bustych (+ 2.2% i 95,500) a heffrod (+5.6% i 16,000).



Prisiau pwysau marw yng Nghymru a Lloegr; yn yr wythnos yn diweddu 01 Rhagfyr, gostyngodd y pris pwysau marw cyfartalog am fustych a heffrod yng Nghymru a Lloegr: 351.1c/kg (12.6c) ar gyfer bustych a 350.8c/kg (-1.6c) ar gyfer heffrod. Cafwyd cynnydd o 2.3c i 327.4c/kg ym mhrisiau teirw ifainc. O edrych ar y gwahaniaeth rhwng prisiau eleni a'r llynedd, yn y pris pwysau marw cyfartalog ar gyfer yr wythnos yn diweddu 01 Rhagfyr y cafwyd y cynnydd mwyaf o'r naill flwyddyn i'r llall oddi ar ddechrau mis Awst. Mae pris pwysau marw bustych ar hyn o bryd yn 9.8c yn is nag oedd yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach.


Yn ogystal a chynnydd yn nifer y gwartheg dethol a laddwyd yn ystod mis Hydref, cafwyd cynnydd hefyd yn niferoedd y buchod llawn dwf (+19.5% i 68,300) a theirw (+19.3% i 1,900). Roedd y ffigurau hyn hefyd yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach – buchod i fyny 4.2% a theirw i fyny 2.7%. Er nad yw prisiau'r farchnad a phrisiau pwysau marw wedi cyrraedd eu brig, mae cynhyrchwyr yn fwy tueddol o werthu da byw cyn ei bod yn bryd eu rhoi dan do. Mae hyn yn digwydd yn flynyddol, ond mae mwy o achos dros werthu eleni am fod llai o borfwyd nag arfer ar gael oherwydd y tywydd sych pan oedd y cynydu'n tyfu. Pan edrychwn ar y flwyddyn hyd yma, mae holl drwybwn y gwartheg (dethol a llawn dwf) yn 2.33 miliwn o anifeiliaid, sef 2.3% yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Hefyd, mae cyfanswm y cig eidion a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod hwn yn 16,400 tonnelli fetrig, sef 2.2% yn uwch na'r llynedd.

Defaid



Prisiau'r farchnad yng Nghymru; Roedd y dyfynbris ansawdd safonol (SQQ) ar gyfer ŵyn Tymor Newydd mewn marchnadoedd da byw yn yr wythnos yn diwedd 01 Rhagfyr yn 173.1c/kg, sef 2.2c yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, a 1.5c yn uwch nag yn yr un cyfnod y llynedd. Mae'r fasnach ŵyn pwysau byw wedi bod yn gymharol ddigyfnewid yn ystod yr wythnosau diwethaf, gyda'r pris yn cynyddu fesul wythnos oddi ar yr wythnos yn diwedd 20 Hydref. Yn ystod y cyfnod hwn o saith wythnos, gwerthwyd llai o ŵyn tymor newydd na'r llynedd mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru; mae cyfanswm y niferoedd hyd yma eleni yn 18% yn is. Yn yr wythnos yn diwedd 01 Rhagfyr, gwerthwyd 4,325 (20.6%) yn llai o ŵyn tymor newydd ym marchnadoedd da byw Cymru nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2017.


Ymddengys fod llai o ŵyn ar gael yn dilyn gaeaf gwlyb a'r Bwystfil o'r Dwyrain. Yn ogystal, mae'r ŵyn wedi pesgi'n arafach am fod y tywydd sych yn yr haf wedi amharu ar dyfiant y glaswellt. Mae'n debygol taw cyfuniad o'r ffactorau hyn sy'n gyfrifol am y ffaith fod llai o ŵyn tymor newydd yn cael eu cynnig i'w gwerthu yn y marchnadoedd da byw. Cafwyd gwelliant ym mhrisiau mamogiaid difa ym marchnadoedd da byw Cymru yn ystod mis Tachwedd; roedd y pris cyfartalog yn yr wythnos yn diwedd 01 Rhagfyr yn £45.00 yr anifail. Mae hyn yn gynydd sylweddol o £4.60 o'r naill wythnos i'r llall ac yn 10c yr anifail yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach.




Prisiau pwysau marw ym Mhrydain; roedd prisiau ŵyn yn 399.0c/kg yn yr wythnos yn diwedd 01 Rhagfyr, sef 3.0c yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol, a 1.3c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach. Mae'r fasnach ŵyn pwysau marw yn dilyn y fasnach yn y marchnadoedd da byw fwy neu lai a gwelwyd cynnydd cyson er dechrau mis. Wrth i gyfnod y Nadolig agosáu, roedd angen ychydig yn fwy o gyflenwad i ateb y galw.

Lladdwyd mwy o ŵyn dethol yn ystod mis Hydref nag yn y mis blaenorol, ond dywedir bod llai o ŵyn ar gael eleni, ac mae'n annhebygol y bydd cymaint o ŵyn a'r llynedd yn cael eu lladd. Am fod y galw'n cynyddu wrth i'r Nadolig agosáu, gall y bydd y cynnydd diweddar ym mhrisiau'r farchnad yn parhau.


Nifer y defaid a laddwyd yn lladd-dai'r DU; Lladdwyd 1,269,000 o ŵyn dethol yn ystod mis Hydref, sef 0.5% (5,900) yn llai na'r llynedd, ond 14.3% yn fwy nag ym mis Medi. Lladdwyd y nifer misol fwyaf eleni o ŵyn tymor newydd – er bod y nifer yn debyg i'r hyn oedd ym mis Awst (0.5% yn fwy nag ym mis Awst). Er gwaethaf cynnydd sylweddol mewn trwybynnau yn ystod misoedd Awst a Hydref, mae'r nifer a laddwyd hyd yma eleni yn dal i fod yn 3.2% yn is nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Oherwydd yr amodau tywydd anodd yn ystod y 12 mis diwethaf, ynghyd â nifer fawr o ŵyn yn cael eu geni yn 2017, mae disgwyl y bydd llai o ŵyn yn cael eu lladd eleni. Mae'n annhebygol y gwelir cynnydd sylweddol yn ystod gweddill y flwyddyn.



Lladdwyd mwy o famogiaid difa a hyrddod yn lladd-dai'r DU nag yn y mis blaenorol. Y nifer oedd 153,100 (+8.6%), sef 17,100 (12.5%) yn uwch nag ym mis Hydref y llynedd. Mewn cymhariaeth ag ŵyn dethol, mae niferoedd y mamogiaid difa a hyrddod wedi para'n gymharol sefydlog trwy gydol y flwyddyn. Fel canlyniad, mae'r trwybwn hyd yma eleni yn 0.7% yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r niferoedd wedi para'n uchel wrth i gynhyrchwyr farchnata anifeiliaid anghynhyrchiol cyn hwrdda ac eto cyn rhoi anifeiliaid dan do - a hynny am fod porfwyd yn gyfyngedig. Roedd cyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd ym mis Hydref yn 28,500 tonnelli, sef 15.0% yn uwch nag ym mis Medi a 2.2% yn uwch nag ar gyfer yr un mis flwyddyn yn gynharach. Am fod llai o ŵyn dethol wedi eu lladd nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, dylanwadodd mamogiaid difa a hyrddod ar y cynnydd yn y cig defaid a gynhyrchwyd ym mis Hydref. Gwelir yr un patrwm wrth ystyried 10 mis cyntaf 2018, pan gynhyrchwyd 234,600 tonnelli fetrig o gig defaid. Mae hyn yn 9,000 tonnelli fetrig (3.7%) yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.



Prisiau pwysau marw ym Mhrydain; Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) yn 147.5c/kg yn yr wythnos yn diwedd 17 Tachwedd, sef 1.2c (0.8%) yn is nag yn yr wythnos flaenorol. O'i gymharu â'r wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach, mae'r pris ar hyn o bryd yn 9.1c (5.8%) yn is. Mae'r bwllch yn y pris rhwng eleni a'r llynedd wedi bod yn cynyddu'n gyson ers dechrau'r flwyddyn, a chafwyd y bwllch mwyaf ddiwedd mis Awst. Ers dechrau Medi, mae'r bwllch wedi bod yn cau unwaith eto ac erbyn hyn mae'r debyg i'r hyn ydoedd yn ystod mis Ebrill. Mae'r ffigyrau a gofnodwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf hefyd wedi gostwng yn is na'r rhai a gofnodwyd ar gyfer 2016.




Prisiau perchyll ym Mhrydain; yn yr wythnos yn diwedd 17 Tachwedd, cafwyd gostyngiad o £1.75 (4.7%) i £35.31/ y mochyn ym mhris cyfartalog perchyll 7kg o'i gymharu ag wythnos yn gynharach – sef 13.9% yn is na blwyddyn yn ôl. Yn ystod yr wythnosau diwethaf ni chafwyd digon o brisiau sampl i fedru pennu pris cyfartalog ar gyfer Prydain. Yn yr wythnos yn diwedd 10 Tachwedd, roedd y pris cyfartalog ar gyfer perchyll yn £49.23 yr anifail. Mae hyn yn £1.69

Mae pris cyfartalog yr holl foch ym Mhrydain yn dal i fod yn is na'r llynedd ac mae nawr yn is nag oedd yn 2016 Efallai taw'r rheswm am y gostyngiad yn y pris cyfartalog yw cynnydd yn nifer y moch heb fagu (+13.5%) a laddwyd ym mis Hydref mewn cymhariaeth â'r mis blaenorol.. Bydd y galw'n debygol o gynyddu yn ystod cyfnod y Nadolig, a dylai hynny ffafrio'r pris cyfartalog am foch.

(3.6%) yn fwy nag yn yr wythnos yn diwedd 10 Hydref. Mae hyn hefyd yn ostyngiad o 13.7% mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, sy'n adlewyrchu'r duedd bresennol ar gyfer moch wedi pesgi.

Yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU; lladdwyd cyfanswm o 987,200 ym mis Hydref, sef 13.5% yn fwy nag yn y mis blaenorol. Mewn cymhariaeth â'r mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach, mae hyn yn gynydd o 41,400 (4.4%). Wrth ystyried deg mis cyntaf eleni, lladdwyd 9,109,600 o foch, sef 3.5% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Oherwydd y cynnydd yn nifer y moch a laddwyd, cafwyd cynnydd o 3.6% yn y cig moch – cynhyrchwyd 771,700 tonnelli fetrig yn y DU hyd yma eleni.



Lladdwyd 963,000 o foch heb fagu yn lladd-dai'r DU ym mis Hydref, sef 37,400 (4.0%) yn fwy nag ym mis Hydref y llynedd a 13.5% yn fwy nag ym mis Medi. Lladdwyd 24,200 o hychod a baeddod yn ystod mis Hydref. Mae hyn yn gynydd sylweddol o 19.2% mewn cymhariaeth â'r mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach ac yn 15.3% yn uwch nag ar gyfer mis Medi.